# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**13 Medi 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, S P Jones, R G Parry, E L Shui-Nicholson, H N Evans, G Parry, J Earnshaw, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng C Thomas | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.07.23 fel cofnodion cywir. Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Mae'r grant ar gyfer yr offer chwarae wedi ei dderbyn ac mae'r Clerc wedi cyfarwyddo'r contractwr i osod yr offer newydd |
| **4.2** | **Cysgodfan Bws Engedi** - llenwi'r tyllau ac arwyddion dim parcio – mewn llaw |
| **4.3** | **Wal mynwent Llanbeulan** – Mae'r contractwr yn gobeithio gwneud y gwaith erbyn diwedd mis Medi |
| **4.4** | **Mandad y banc** – mewn llaw |
| **4.5** | **Maes Chwarae** - Mae'r Clerc wedi archebu 2 sedd swing newydd. Bydd y rhain yn cael eu gosod pan fydd yr offer newydd arall yn cael ei osod.<br>Bu fandaliaeth pellach ar y maes chwarae. Trafododd yr aelodau osod system CCTV i fonitro'r maes chwarae. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd, Cyng I Roberts, Cyng H N Evans a'r brifathrawes i drafod y posibilrwydd o osod system ar adeilad yr ysgol. |
| **4.6** | **Hysbysffwrdd maes parcio yr ysgol** - Cytunwyd i adael yr hysbysfwrdd yn ei leoliad presennol ym maes parcio'r ysgol. Cytunwyd i gyllidebu ar gyfer hysbysfwrdd newydd (ger yr eglwys) yn y flwyddyn ariannol nesaf |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 11.10.23 |

| | |
|---|---|
| **4.7** | **Mynwent Llanbeulan (gwair)** – Bydd y Cynghorydd H N Evans yn ymweld i weld a yw'r gwair wedi'i dorri. |
| **4.8** | **Mynwent Salem** - Mae'r Cadeirydd wedi derbyn dyfynbris llafar o £600 ynghyd â TAW ar gyfer torri'r gwrychoedd. Mae angen gadael y gwrychoedd yn 6 troedfedd o uchder er mwyn amddiffyn rhag y gwynt. Bydd y Clerc yn trafod gyda AGS Ground Care Services. |
| | |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Brian Jones wedi bod yn codi sbwriel ar y maes chwarae. Diolchodd hefyd i'r Cyng D Fowlie am gyfrannu crys a jacket i Mr Jones. |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Cynghrair Crigyll – Gwybodaeth yn unig – cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19.09.23 |
| **7.2** | Heddlu Gogledd Cymru - Cadarnhad eu bod yn ymchwilio i ddifrod i'r lloches bws |
| **7.3** | Rhys Williams - Cadarnhad y bydd y llwybr i Eglwys Llanbeulan yn cael ei dorri a'r gwair yn cael ei symud o'r fynwent |
| **7.4** | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - gofynnwyd i'r aelodau ymateb i'r ddogfen ymgynghori |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Fandaliaeth Bryngwran - Mae sawl achos o fandaliaeth wedi bod ym Mryngwran yn ddiweddar. Cynigiodd y Cyng Fowlie gysylltu â'r Heddlu i ofyn am batrolau rheolaidd yn yr ardal. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu â'r Heddlu i ofyn a ydyn nhw am benodi "Community Beat Manager" ar gyfer yr ardal |
| **8.2** | Cefnogaeth Heddlu Cymunedol – gweler 8.1 |
| **8.3** | Sul y Cofio - Gofynnwyd i'r Clerc wneud y trefniadau arferol ar gyfer Dydd y Cofio |
| **8.4** | Mynwent Llanbeulan (giat) - Roedd giât yr eglwys wedi torri ac mae Mr Brian Jones wedi ei thrwsio. |
| **8.5** | Difrod Cysgodfan Bws - Mae to'r lloches bws ger yr eglwys wedi ei ddifrodi. Mae'r Clerc wedi adrodd y mater i'r Heddlu (gweler 7.2). Mae hefyd wedi trefnu i waith atgyweirio gael ei wneud. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 11.10.23 |

| | |
|---|---|
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | D W Williams (trwsio lloches bws) £528.00 |
| **9.2** | Unllais Cymru (Hyfforddiant) £76.00 |
| **9.3** | JRB Enterprise (bagiau gwastraff cwn) £289.80 |
| **9.4** | Cyngor Gwynedd (audit) £234.00 |
| **9.5** | H Williams (tynnu siglenni a hysbysfwrdd) £45.00 |
| **9.6** | Brian Jones (trwsio giat) £13.70 |
| **9.7** | Dywedodd y Cyng S P Jones nad yw Teirw Bryngwran yn bodoli bellach. Mae ganddynt tua £3000 yn eu cyfrif ac maent yn hapus i'w gyfrannu i'r Cyngor Cymuned. Rhaid defnyddio'r arian ar gyfer y maes chwarae.<br>Diolchodd y Cadeirydd y Cyng. I Roberts i bwyllgor yr hen Glwb Pêl-droed. |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Bin ar Lon Ty Hen |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 11.10.23 |